

# Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

## Tasgau Cyfoethog

<b>Ardal: Coedwig</b>	<b>Grŵp</b> <b>Blwyddyn y CC</b> Blynyddoedd 1 a 2
<b>Amcan Dysgu: Creu darlun cymesur gan ddefnyddio deunyddiau naturiol</b>	
<b>Maes Dysgu a Phrofiad: Datblygiad Mathemategol Rhaglen Astudio</b> <u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u> Adnabod prosesau a chysylltiadau <ul style="list-style-type: none"><li>• Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth</li><li>• Adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad</li><li>• Dewis cyfarpar ac adnoddau priodol</li></ul> Cynrychioli a chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain</li><li>• Cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd.</li></ul> Adolygu <ul style="list-style-type: none"><li>• Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol.</li></ul> <u>Defnyddio sgiliau geometreg.</u> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adnabod a chwblhau siâp syml neu lun cymesur (B1)</li><li>• Adnabod llinell cymesuredd ar gyfer siapiau 2D a chwblhau lluniau cymesur. (B2)</li></ul> <u>Cysylltiadau cwricwlaidd</u> TGCh, Celf.	
<b>Pennawd/Addas i Blant</b>  Crëwch lun cymesur o bethau rydych chi'n eu darganfod yn y goedwig.	
<b>Meini Prawf Llwyddiant</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Creu siâp/llun cymesur.</li><li>• Dangos ble mae llinell cymesuredd.</li></ul>	
<b>Beth i'w wneud:</b>  Gweithgareddau paratoi: <ul style="list-style-type: none"><li>• Gallai'r dosbarth dreulio amser tu allan yn adnabod pethau a allai fod yn gymesur, yn eu barn nhw (e.e. blodau, cregyn malwod, gwahanol goed, gwrthrychau gwneud, ac ati). Yna, gallan nhw dynnu ffotograffau o'r rhain.</li><li>• Yn y dosbarth, gallai'r ffotograffau gael eu harddangos ar y bwrdd gwyn</li></ul>	

rhyngweithiol. Rhowch llinell i lawr y canol a gofyn i ddisgyblion a yw'r eitemau yn gymesur ai peidio. Gallech brofi drwy ddefnyddio swyddogaethau TGCh i gopïo ac adlewyrchu.

Ymestyn:

- Mae gan rai blodau un llinell cymesuredd. Mae gan rai blodau nifer o linellau cymesuredd. Tynnwch luniau o wahanol blanhigion blodeuol tu allan a'u harchwilio. Bydd pob plentyn yn dewis dail i fynd â nhw yn ôl i'r dosbarth i greu rhwbiadau dail
- Lluniadwch y llinell a defnyddio drych i weld a yw eich deilen yn gymesur ai peidio

Prif weithgaredd:

- Dylai'r athro ddefnyddio gwialen fel llinell cymesuredd a cherrig mân, a chreu patrymau sy'n cyfateb neu batrymau nad ydynt yn cyfateb, ar y naill ochr a'r llall, a gofyn i'r grŵp a yw'r patrymau yn gymesur ai peidio.
- Dylid rhoi cylch gwastad o glai i bob plentyn a gofyn iddyn nhw farcio llinell cymesuredd (gyda gwialen, dail, cerrig mân ac ati).
- Ar ôl gwneud hyn, gofynnwch iddyn nhw gasglu amrywiaeth o wrthrychau naturiol a'u harddangos ar ddwy ochr y llinell i ddangos llun cymesur.
- Rhaid i'r plant ddarbwylllo'r athro bod un llinell cymesuredd gan eu patrwm (defnyddiwch ddrychau gyda'r plant i gadarnhau).
- Tynnwch ffotograffau fel tystiolaeth.

Ymestyn:

- Crëwch fandalâu cymesur gyda dwy linell cymesuredd neu fwy.

Dylid defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain.

Gweithgaredd dilynol – defnyddiwch ffotograffau o'r iPad er mwyn i'r plant siarad am beth wnaethon nhw/sut maen nhw'n gwybod ei fod yn gymesur.

Trafodwch: beth yw ystyr cymesuredd?

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cymesuredd adlewyrchiad a llinell cymesuredd?

Gweithgaredd ymestyn:

- Dylai disgyblion greu un ochr o'r llinell cymesuredd o fewn cyfnod o 3 munud. Caiff disgyblion eu herio i gwblhau patrwm cymesur grŵp arall.
- Dangoswch batrwm gyda mwy nag un llinell cymesuredd. Caiff disgyblion eu herio i greu patrwm cymesur gyda mwy nag un llinell cymesuredd.

**Adnoddau:**

- iPad/camera
- Clai
- Drychau.